

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar Gyfer

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022

Darllenwch y Nodiadau Cyfarwyddyd yn Atodiad 1 cyn dechrau'r Asesiad hwn

Sylwer:

- Rhaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (EHIA) wedi'i gwblhau
 - gael ei gynnwys fel atodiad gyda'r adroddiad clawr pan gyflwynir y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu newid gwasanaeth i'w cymeradwyo
 - cael ei gyhoeddi ar fewnwyd a thudalennau rhyngwyd y BIP fel rhan o'r ymgynghoriad (os yw'n berthnasol) unwaith y cytunir arno
- Rhaid cynnal ymgynghoriad ffurfiol, yn ôl y galw¹
- Rhaid dileu Atodiadau 1-3 cyn ei gyflwyno i'w cymeradwyo

Atebwch bob cwestiwn:-

1.	Ar gyfer newid gwasanaeth, rhowch deitl Dogfen Amlinellol y Prosiect neu'r Achos Busnes a'r Cyfeirnod	Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022 ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
2.	Enw'r Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol a theitl yr aelod staff arweiniol, gan gynnwys manylion cyswllt	Cyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Dr Emily Clark, Cofrestrwydd Arbenigol mewn Iechyd Cyhoeddus Dr Suzanne Wood, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus Hsc.Integration@wales.nhs.uk
3.	Amcanion y strategaeth / polisi / cynllun / gweithdrefn / gwasanaeth	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhanbarth gynhyrchu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) ym mhob cylch etholiadol. Disgwylir i'r PNA gael ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2022, a bydd yn rhoi mewnbwn i'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a

¹http://nww.cardiffandvale.wales.nhs.uk/portal/page?_pageid=253.73860407.253.73860411&_dad=portal&_schema=PORTAL

		<p>Chynlluniau Ardal. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r PNA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ffurfio partneriaethau i asesu'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Anghenion am ofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol 2. I ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu 3. Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny 4. Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol yn adran 15 y Ddeddf 5. Sut bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg (1) <p>Rhaid i'r PNA edrych ymlaen at yr iteriad nesaf ym mis Ebrill 2027.</p> <p>Mae'r Cod Ymarfer yn nodi y dylai ystod eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau roi mewnbwn i ddatblygiad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, ac ystyried sut i gyrraedd y rheini na chlywir eu lleisiau'n aml, er enghraifft, pobl ddigartref (1). Dywed canllawiau atodol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion cyfathrebu, er enghraifft defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (2). Lanswyd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ym mis Mawrth 2021 a dylid ei chynnwys yn y PNA.</p> <p>Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gynnwys y themâu canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Plant a Phobl Ifanc • Pobl Hŷn • Iechyd / anabledau corfforol • Anabled dysgu / awtistiaeth • Iechyd meddwl • Nam ar y synhwyrâu • Gofalwyr sydd angen cefnogaeth • Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol • Sefydliadau diogel
--	--	---

Dewiswyd tair thema ychwanegol i'w cynnwys gan eu bod yn arbennig o berthnasol i boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg

- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- Camddefnyddio sylweddau
- Gadawyr Gwasanaeth y Lluoedd Arfog (Cyn-filwyr)

Dywed y Cod Ymarfer y canlynol o ran asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg:

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

93. *Fel yr amlinellir ym mhennod 1, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw priodol i Gontensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, Contensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn mewn perthynas â pherson sydd angen gofal a chymorth a gofalwr sydd angen cymorth. Yn ogystal, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol roi sylw priodol i nodweddion gwarchoddedig wrth gyflawni eu swyddogaethau.*

Felly, rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses o gynnal asesiad poblogaeth. Rhaid i hyn gynnwys asesiadau effaith ar: Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd a Chredoau, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol(1).

Y Gymraeg

121. *Wrth asesu i ba raddau mae pobl angen gofal a chymorth ac i ba raddau mae gofalwyr angen cymorth, dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu proffil cymunedol y Gymraeg, a gwneud hynny'n glir yn yr adroddiad asesiad poblogaeth(1).*

<p>4.</p>	<p>Y dystiolaeth a'r wybodaeth gefndir a ystyriwyd. Er enghraifft</p> <ul style="list-style-type: none"> • data poblogaeth • data staff a defnyddwyr gwasanaeth, fel sy'n briodol • asesiad o anghenion • canfyddiadau ymgysylltu a chyfranogi • ymchwil • canllawiau arfer da • gwybodaeth am gyfranogwr • rhestr o randdeiliaid a sut mae rhanddeiliaid wedi ymgysylltu â'r camau datblygu • sylwadau gan y rheini sydd wedi cymryd rhan yn y camau cynllunio a datblygu <p>Mae pyramidiau poblogaeth ar gael o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru² ac mae Strategaeth 'Llunio Ein Lles i'r Dyfodol' y BIP yn rhoi trosolwg o anghenion iechyd³.</p>	<p>Drwy gydol y gwaith o gynhyrchu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, rhoddwyd ystyriaeth i anghydraddoldebau a phobl sy'n fwy agored i niwed. Roeddem yn ymwybodol o'r "lleisiau na chlywir yn aml" gan fod hyn yn cyfeirio at bobl heb gynrychiolaeth ddigonol a allai fod ag anghenion gofal a chymorth. Gall llawer o ffactorau gyfrannu at beidio â chael eich clywed yn aml, ac mae rhai o'r ffactorau hyn yn themâu yn yr Asesiad, megis anabledau, oedran, namau cyfathrebu, a phroblemau iechyd meddwl.</p> <p>Gwyddom fod COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar rai grwpiau yn y boblogaeth.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda Rheolwr Cydraddoldeb, Hybu Iechyd Arbenigol, a Swyddog y Gymraeg BIP Caerdydd a'r Fro yn gynnar yn y broses (18.06.2021).</p> <p>Roedd y Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Trydydd Sector Caerdydd a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, yn ogystal ag arweinwyr strategol a data o'r ddau awdurdod lleol, a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, ac Iechyd Cyhoeddus.</p> <p>Ar gyfer pob grŵp poblogaeth, cynhaliwyd cyfarfod gydag arweinwyr proffesiynol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phob Awdurdod Lleol, gyda mynychwyr ychwanegol fel oedd yn berthnasol i'r pwnc dan sylw. Trafododd y grŵp y dogfennau, polisïau, strategaethau a datblygiadau allweddol ers PNA 2017. Trafodwyd ffynonellau data ar gyfer yr iteriad hwn o'r PNA.</p> <p>Seiliwyd ymgysylltu ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2017 ac fe'i diweddarwyd ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae pandemig y coronafeirws wedi dylanwadu ar sut y gellir cynnal digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu. Roedd angen i'r ymgysylltu a wnaed ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y</p>
-----------	--	--

² <http://nww2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf>

³ <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/the-challenges-we-face>

Boblogaeth gadw at ganllawiau a deddfwriaeth a'u rhagweld ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag ystyried dymuniadau unigol pobl. Roedd nifer yr ymwelwyr â manau cyhoeddus yn llai na chyn COVID-19. Defnyddiwyd nifer o wahanol ddulliau i gael y wybodaeth oedd ei hangen er mwyn rhoi trosolwg cyfannol o'r anghenion gofal a chymorth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ac ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Roedd hyn yn cynnwys casglu data, asesiadau ac adroddiadau sydd eisoes yn bodoli; yn ogystal â chynnal gwaith ymgysylltu pwrpasol ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth hwn.

Datblygwyd tri arolwg cyhoeddus:

- Oedolion o blith y cyhoedd (ar gael ar-lein, copi caled a Hawdd ei Ddeall)
- Plant a phobl ifanc (ar gael ar-lein, copi caled a Hawdd ei Ddeall)
- Oedolion yng Ngharchar Caerdydd (ar gael fel copi caled)

Bu Bwrdd Ieuenctid Caerdydd mor garedig â threialu'r arolwg plant a phobl ifanc a rhoi adborth a chynhwyswyd hwn yn yr arolwg terfynol.

Dychwelwyd 661 o arolygon cyhoeddus cyffredinol; 3 arolwg Hawdd ei Ddeall; 35 o arolygon gan blant a phobl ifanc; a 96 o Garchar Caerdydd.

Datblygwyd arolwg gweithwyr proffesiynol a darparwyr (ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled). Derbyniwyd 118 o ymatebion.

Dosbarthwyd arolygon drwy amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, yn ogystal â thrwy sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, a gwasanaethau ieuenctid. Hysbysebwyd yr arolygon hefyd drwy gyfryngau cymdeithasol.

Nid yw ymatebion yr arolwg yn gynrychioliadol o boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg.

		<p>Cynhaliwyd 23 o grwpiau ffocws ar draws 18 thema. Cynhaliwyd y rhain gan Gyngor Trydydd Sector Caerdydd gyda chymorth Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a sefydliadau trydydd sector.</p> <p>Rhithiol oedd y grwpiau ffocws yn bennaf (12); gyda rhai hybrid (2); a 5 wyneb yn wyneb. Cynhaliodd un grŵp poblogaeth ddau grŵp ffocws ar wahân – un rhithwir ac un wyneb yn wyneb. Cymerodd 132 o gyfranogwyr (ystod 1-12) ran yn y grwpiau ffocws, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021.</p> <p>Cynhaliwyd y grwpiau ffocws canlynol. Rhoddir nifer y cyfranogwyr mewn cromfachau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Babanod, plant a phobl ifanc ag anableddau, eu rhieni neu ofalwyr (n=8) • Plant sy'n derbyn gofal, plant wedi'u mabwysiadu, plant sydd wedi cael profiad o ofal, plant ar gyrion gofal (n=3) • Pobl hŷn (65-84 oed) (n=4) • Pobl hŷn (85+ oed) (n=3) • Oedolion â chyflwr hirdymor (n=5) • Oedolion ag anabledd (n=8) • Oedolion ag anabledd dysgu x3 (n=7; n=5; n=8) • Oedolion awtistig (n=1; ystyried cyfweiliad yn hytrach na grŵp ffocws) • Oedolion â salwch meddwl (n=4) • Oedolion â nam gwybyddol/dementia (n=7) • Oedolion sy'n gofalu am oedolion yn ddi-dâl (n=12) • Oedolion â cholled golwg (n=6) • Oedolion o'r gymuned F/fyddar (n=4) • Merched â phrofiad o drais, cam-drin domestig, neu drais rhywiol x2 (n=9 cyfanswm) • Ceiswyr lloches a ffoaduriaid x2 (n=9 cyfanswm) • Oedolion sy'n preswyllo yng Ngharchar Caerdydd ar hyn o bryd (n=8) • Gadawyr gwasanaeth y lluoedd arfog (cyn-filwyr) (n=6) • Oedolion â phrofiad o gamddefnyddio sylweddau (n=2)
--	--	---

		<ul style="list-style-type: none"> • Oedolion sy'n ddigartref ar hyn o bryd / sydd â phrofiad o ddigartrefedd (n=10) <p>Yn anffodus ni chynhaliwyd tri grŵp ffocws a gynlluniwyd gan nad oedd modd canfod unrhyw gyfranogwyr o fewn yr amserlenni a oedd ar gael, neu, tynnodd y darparwr yn ôl:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd angen gofal a chymorth oherwydd, neu sy'n cael profiad o bontio i wasanaethau oedolion • Plant a phobl ifanc a theluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau asesu niwroddatblygiadol/cymorth ôl-ddiagnostig • Sipsiwn a theithwyr <p>Rhoddodd y sefydliadau canlynol gymorth gyda'r gwaith ymgysylltu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adferiad Recovery • Age Cymru • Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro (CAVAMH) • Pobl yn Gyntaf Caerdydd • Cyngor trydydd Sector Caerdydd • Bwrdd Ieuenctid Caerdydd • Parlys yr Ymennydd Cymru • Cymdeithas Tsieineaid yng Nghymru • Gwasanaeth Gofal a Lles Cymunedol (CCAWS) • Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg • Neiniau a Theidiau yn Magu Wyrion • Canolfan Huggard • CEM Caerdydd • Oasis Caerdydd • Ymgynghorwyr Richard Newton • Sightlife – Sight Cymru • Cyngor Bro Morgannwg – Prosiect Anhwylder Sbectrwm Awtistig • Cynghrair Niwrolegol Cymru • Cymorth i Fenywod
--	--	--

Cymerwyd data meintiol o ffynonellau dilys, ffynhonnell agored sydd ar gael i'r cyhoedd, megis Stats Cymru ac Amcanestyniad Poblogaeth Daffodil Gofal Cymdeithasol Cymru. Cafwyd dangosyddion eraill yn uniongyrchol drwy gyfathrebu personol â sefydliadau perthnasol (er enghraifft Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg), neu drwy gais Rhyddid Gwybodaeth (er enghraifft Heddlu De Cymru). Darparwyd data demograffeg gan Gyngor Caerdydd i sicrhau cydlyniant ar draws yr Asesiad Llesiant a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Ystyriwyd fframweithiau ymgysylltu wrth ddatblygu'r cynllun ymgysylltu (e.e. Fframwaith Ymgysylltu â Dinasyddion; Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc).

Cyfyngiadau

Mae COVID-19 wedi cael effaith aruthrol ar y boblogaeth a bydd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn manylu ar hyn. Mae hefyd wedi effeithio ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn rolau gweithredol a strategol a rhoddodd hyn her ar gyfer cwblhau'r asesiad hwn. Roedd heriau eraill yn codi ar ffurf yr amserlen ar gyfer cynnal yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth; bydd dull newydd ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei fabwysiadu yn y dyfodol i liniaru hyn, fel y manylir isod.

Oherwydd ansicrwydd ynglŷn ag esblygiad y pandemig COVID-19 yn y dyfodol o ran cyfyngiadau a risgiau ar bob cam o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, cymerwyd agwedd ofalus. Er enghraifft, cynlluniwyd gwaith ymgysylltu ar fformat ar-lein, gyda chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio wyneb yn wyneb yn y grŵp ffocws lle'r oedd deddfwriaeth yn caniatáu hynny, a lle'r oedd y cyfranogwyr a'r sefydliadau a oedd yn eu lletya yn teimlo'n gyfforddus gwneud hynny. Roedd yr amserlen dynn ar gyfer cynnal gwaith ymgysylltu wedi lleihau cyfranogiad mewn arolygon a grwpiau ffocws. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu ei strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a fydd yn mynd i'r afael â'r anawsterau a'r bylchau hyn, a bydd yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd. Er enghraifft, efallai na fydd gan rai preswylwyr fynediad

		<p>digidol ac efallai na fyddant yn dymuno ymgysylltu â phobl yn bersonol, ac felly rhoddir blaenoriaeth i gael eu barn mewn gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Dim ond lleiafrif o gyfranogwyr y grwpiau ffocws (9/132) a lenwodd ffurflenni monitro cydraddoldeb, ac felly ni chyflwynir y canlyniadau yma.</p> <p>Mae adborth gan drefnwyr grwpiau ffocws wedi'i rannu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w ystyried wrth gynllunio gwaith ymgysylltu yn y dyfodol. Roedd adborth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen mwy o amser paratoi i gynyddu cyfranogiad mewn grwpiau ffocws • Dylid defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd, yn hytrach na'r Model Meddygol o Anabledd • Gwell mynediad at yr arolwg Hawdd ei Ddeall • Hyd y ffurflen monitro cydraddoldeb • Hyd amser y grwpiau ffocws <p>Bydd ymgysylltu yn y dyfodol yn dysgu o'r profiadau hyn ac yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r pryderon, drwy gynllunio ymlaen llaw, a rhoi ystyriaeth bwrpasol o bob grŵp poblogaeth.</p>
5.	Ar bwy fydd y strategaeth / polisi / cynllun / gweithdrefn / gwasanaeth yn effeithio	<p>Bydd y PNA yn helpu i lunio Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Er bod yr asesiad yn canolbwyntio ar y grwpiau poblogaeth canlynol, bydd llawer o ganfyddiadau yn drosglwyddadwy i eraill nad ydynt yn y grŵp. Bydd rhai pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn mwy nag un o'r themâu.</p> <p>Roedd y themâu'n cynnwys: plant a phobl ifanc (gan gynnwys plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, a phlant sy'n derbyn gofal); pobl hŷn; ffyrdd iach o fyw a chyflyrau hirdymor; anabledau corfforol; anabledd dysgu; awtistiaeth; iechyd meddwl oedolion; nam gwybyddol gan gynnwys dementia; oedolion sy'n ofalwyr di-dâl; colli synhwyrâu a nam ar y synhwyrâu; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; sefydliadau diogel; ceiswyr</p>

lloches a ffoaduriaid; gadawyr gwasanaeth y lluoedd arfog (cyn-filwyr); camddefnyddio sylweddau.

Fel asesiad o anghenion, prif effaith y pryder yw diffyg cynrychiolaeth grwpiau penodol. Bydd y ddogfen hon yn disgrifio nodweddion y rheini a gymerodd ran mewn gwaith ymgysylltu. Felly ni ddylid ystyried canfyddiadau'r asesiad hwn yn hollgynhwysfawr.

Mae'r rheini sy'n cael eu tangynrychioli mewn gwaith ymgysylltu yn cynnwys:

- Y rheini sydd wedi'i hallgau'n ddigidol
- Pobl sy'n draws
- Menywod sy'n disgwyl babi, sydd ar seibiant o'r gwaith ar ôl cael babi, neu sy'n bwydo ar y fron
- Pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig
- Pobl sy'n ystyried eu hunain yn: Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd neu Sikh
- Y rheini a oedd yn gorfforol methu â chyfranogi mewn gwaith ymgysylltu a heb unigolyn i siarad ar eu rhan
- Sipsiwn a theithwyr

Bydd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn defnyddio dull hybrid mewn iteriadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys diweddariad treigl o ddata meintiol, ac adnewyddiad cyfnodol o ddata ansoddol o waith ymgysylltu. Felly, dylid ystyried yr adroddiad PNA hwn a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (EHIA) fel iteriad cyntaf: dechrau sgwrs barhaus rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a thrigolion Caerdydd a Bro Morgannwg.

Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth ar y PNA a'r EHIA, wrth i ni geisio dysgu, gwella a datblygu. Anfonwch y rhain i Hsc.Integration@wales.nhs.uk

6. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb / Sut fydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar bobl?

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud â'r effaith ar bobl ar sail eu 'nodweddion gwarchoddedig'. Mae aliniad penodol â 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i gynnwys yn yr adrannau perthnasol.

Sut fydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol. Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol
<p>6.1 Oedran At y rhan fwyaf o ddibenion, y prif categorïau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dan 18 • rhwng 18 a 65 • dros 65 	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar oedran. Fodd bynnag, roedd plant a phobl ifanc wedi'u tangynrychioli mewn gwaith ymgysylltu ac felly mae'n bosibl y bydd safbwyntiau ychwanegol nad ydynt wedi'u casglu yn yr asesiad hwn. Felly ni ddylid ystyried canfyddiadau'r PNA yn hollgynhwysfawr. Roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiolchgar am y cyfle i gael eu clywed, gan awgrymu y byddai gwaith ymgysylltu â phobl ifanc yn y dyfodol yn cael ei groesawu.</p> <p>Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a lles emosiynol a meddyliol • Annibyniaeth a chael llais • Rôl addysg mewn dysgu a chyfeirio, a'r tarfu arno oherwydd COVID-19 a chyfyngiadau 	<p>Mae rhaglenni BPRh wedi'u cynllunio i gefnogi pobl ar wahanol gamau o'u cylch bywyd: dechrau, byw a heneiddio'n dda. Rydym eisiau darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra ar gyfer pobl ar wahanol gyfnodau mewn</p>	

Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd ar gyfer pobl hŷn (65 oed neu hŷn) yn cynnwys:

- Lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd
- Anghenion sy'n codi oherwydd newidiadau mewn ymddygiad oherwydd COVID-19 a chyfyngiadau megis llai o weithgarwch (corfforol), dadgyflyru
- Mynd i'r afael ag ansicrwydd ariannol
- Tai priodol a hygyrch

Rhoddir ystyriaeth benodol i oedran yn y penodau canlynol:

- Mae'r bennod ar **ddemograffeg** (pennod 4) yn rhoi trosolwg o gyfansoddiad oedran presennol Caerdydd a Bro Morgannwg a'r cyfansoddiad a amcanestynnir. Mae pob pennod yn rhoi crynodeb o nodweddion y boblogaeth yn ei chyflwyniad.
- Mae **plant a phobl ifanc** (rhai hyd at, ac yn cynnwys, 17 oed) yn cael eu hystyried yn benodol ym mhenedau 5, 6 a 7.
- Trafodir **pobl hŷn** (rhai dros 65 oed) ym mhennod 8.

Mae rhai cyflyrau yn cynyddu o ran eu cyffredinedd gydag oedran; er enghraifft, colli golwg. Mae RNIB yn darparu data ar nifer y bobl sydd wedi colli eu golwg yn ôl oedran: Nifer amcangyfrifedig o oedolion sy'n byw gyda cholled golwg yn ôl grŵp oedran (2021) Cyfeirnod: (3)

Ardal	Pobl oed gweithio 18-64 oed	Pobl hŷn 65-74 oed	Pobl hŷn 75-84 oed
Cymru	20,100	23,400	32,100
Caerdydd	2,090	1,860	2,440
Bro Morgannwg	870	1,020	1,410


bywyd a bydd ein hymgysylltiad yn cael ei gynllunio i gasglu profiadau a barn pobl ym mhob categori oedran.

Mae pob pennod yn y PNA wedi datblygu argymhellion yn seiliedig ar yr anghenion allweddol. Dylai cynlluniau ac asesiadau yn y dyfodol ystyried canfyddiadau'r PNA wrth eu datblygu.

Trwy fynegi anghenion grwpiau oedran penodol o fewn y PNA, gall gwasanaethau eu bodloni'n well. Mae hyn yn effaith gadarnhaol.

Canfyddiadau'r ymgysylltu

Roedd gan ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus cyffredinol y proffil oedran canlynol:



Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol ac felly mae'n bosibl nad yw eu hystod lawn o safbwyntiau wedi'u casglu gan yr arolwg hwn. Mae allgau digidol wedi'i nodi mewn llawer o benodau yn y PNA, yn arbennig, pennod 8 (pobl hŷn) (gweler adran 8.2.1 yr adroddiad PNA).

Datgelodd 26 o'r 35 a ymatebodd i'r arolwg plant a phobl ifanc eu hoedran; mae'r dadansoddiad fel a ganlyn: roedd 42% rhwng 12-15 oed, 35% rhwng 16-18 oed, a 23% rhwng 0-11 oed. Sampl fach wedi'i hunan-ddethol yw hwn, ac felly ni ellir allosod eu barn ar gyfer y boblogaeth gyfan o bobl o dan 18 oed.

	<p>Ni chynhaliwyd dau grŵp ffocws a oedd wedi'u cynllunio, felly ni chasglwyd barn fanwl pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd angen gofal a chymorth oherwydd eu bod yn pontio i wasanaethau oedolion, yn ogystal â phlant a phobl ifanc a theuluoedd sy'n defnyddio asesiad niwroddatblygiadol/cymorth ôl-ddiagnostig yn y PNA hwn.</p>		
<p>6.2 Personau ag anabledd fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 Y rheini â nam corfforol, anabledd dysgu, nam ar y synhwyrâu, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau meddygol hirdymor megis diabetes</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar bobl ag anabledd . Fodd bynnag, nododd adborth o'r gwaith ymgysylltu y dylai'r Model Cymdeithasol o Anabledd fod wedi cael ei ddefnyddio yn lle'r Model Meddygol o Anabledd pan oedd cwestiynau wedi'u fframio a'u strwythuro. Bydd yr adborth hwn yn cael ei ystyried wrth ymgysylltu â dinasyddion yn y dyfodol.</p> <p>Rhoddir ystyriaeth benodol i anabledd yn y penodau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae pobl â chyflyrau hirdymor yn cael eu hystyried yn y bennod "Ffyrdd lach o Fyw a Chyflyrau Hirdymor" (pennod 9) • Mae pobl anabl yn cael eu cynnwys ym mhennod 10, "Anabledd Corfforol" • Ystyrir pobl ag anabledd dysgu ym mhennod 11; mae pobl awtistig wedi'u cynnwys ym mhennod 12. • Trafodir iechyd meddwl oedolion ym mhennod 13. • Trafodir nam gwybyddol gan gynnwys dementia ym mhennod 14. • Trafodir pobl sydd wedi colli synhwyrâu a sydd â nam ar y synhwyrâu ym mhennod 16. • Trafodir pobl sydd wedi cael profiad o gamddefnyddio sylweddau ym mhennod 18. • Roedd llawer o bobl a oedd mewn un bennod hefyd wedi'u cynnwys mewn pennod arall; er enghraifft mae pobl ag anabledd dysgu yn fwy tebygol o fod â nam ar eu golwg neu ddatblygu nam ar eu golwg na'r boblogaeth yn gyffredinol: <p>Anabledd dysgu a nam ar y golwg ymhlith oedolion (2021) Mae oedolion sydd ag anableddau dysgu 10 gwaith yn fwy tebygol o ddiodef o golli golwg na'r boblogaeth yn gyffredinol.</p>	<p>Mae'r BPRh wedi nodi anabledd fel ffocws allweddol yn ein hymgysylltiad cam 1 gan ein bod yn cydnabod yr effeithir yn arbennig ar bobl ag anableddau os byddwn yn ailgynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r BPRh yn gobeithio, drwy ddod â gwasanaethau'n nes at adref a'i gwneud yn haws i lywio drwyddynt y bydd pobl ag anableddau yn</p>	

Ardal	Nifer amcangyfrifedig oedolion ag anabledd dysgu a nam ar y golwg (rhannol ddall)	Nifer amcangyfrifedig oedolion ag anabledd dysgu a dallineb	Nifer amcangyfrifedig oedolion ag anabledd dysgu a dallineb neu sy'n rhannol ddall
Cymru	3,970	1,120	5,090
Caerdydd	420	120	540
Bro Morgannwg	170	45	215

Cyfeirnod: (3)

Drwy fynegi'r anghenion a nodir yn y grwpiau poblogaeth hyn, gall gwasanaethau ystyried y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hyn: effaith gadarnhaol.

Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd gan bobl â chyflwr hirdymor neu anabledd corfforol yn cynnwys:

- Gwrthweithio effaith anghymesur COVID-19 ar bobl anabl (niwed uniongyrchol o COVID-19 yn ogystal ag anhawster cael mynediad at wasanaethau iechyd; effeithiau iechyd meddwl a llesiant COVID-19 a chyfyngiadau)
- Mynediad at wasanaeth i bobl ag anhwylderau iechyd meddwl a'r rheini sy'n ddigartref

Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd gan bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yn cynnwys:

- Annibyniaeth, ymreolaeth â chymorth, a chyd-gynhyrchu
- Dewisiadau trafndiaeth hygyrch


teimlo eu bod wedi gwella.

Mae Rhaglen Byw'n Dda y BPRh wedi sefydlu cysylltiadau rhagorol gyda phobl ag anabledd dysgu ac maent wedi cael llawer iawn o fewnbwn i ddatblygiadau yn y maes hwn e.e. Dyluniad Tŷ Clyfar. Bydd hyn yn parhau wrth i'n gwaith fynd rhagddo.

Bydd y Model Cymdeithasol o Anabledd yn cael ei ddefnyddio, yn unol â'r adborth a gafwyd.

	<p>Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd gan bobl â chyflwr iechyd meddwl neu nam gwybyddol, gan gynnwys dementia, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad amserol at wasanaethau a thrin cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol yn gyfannol • Gofalu am ofalwyr di-dâl <p>Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd gan bobl sydd wedi colli synhwyrau neu sydd neu â nam ar eu synhwyrau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argaeledd mecanweithiau cyfathrebu addas i gael mynediad teg at wasanaethau (er enghraifft argaeledd dolen glyw a dehonglwyr BSL) • Cyfleoedd addysg a chyflogaeth <p>Mae enghreifftiau o anghenion allweddol a nodwyd gan bobl yn y grŵp camddefnyddio sylweddau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal meddygol arbenigol gan gynnwys iechyd meddwl • Atal a rheoli digartrefedd <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg cyffredinol eu bod yn ystyried eu hunain yn y grwpiau canlynol. Dywedodd dwy ran o dair (66.7%) o'r ymatebwyr fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor; dilynwyd hyn gan un o bob pedwar a oedd yn ystyried bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl a/neu eu bod yn ofalwyr di-dâl (25.2% a 24.9% yn y drefn honno).</p>	<p>Mae pob pennod yn y PNA wedi datblygu argymhellion yn seiliedig ar yr anghenion allweddol a nodwyd. Dylai cynlluniau ac asesiadau yn y dyfodol ystyried canfyddiadau'r PNA wrth eu datblygu.</p>	
--	--	---	--

Ydych chi'n ystyried eich hun yn rhan o un o'r grwpiau canlynol: Ticiwch bob un perthnasol.



Dychwelwyd tri arolwg Hawdd ei Ddeall. O gofio'r niferoedd bach, ni ddarperir dadgyfuniad pellach.

Cynhaliwyd nifer o grwpiau ffocws i ganfod barn pobl ag anabledau:

- Oedolion â chyflwr hirdymor (n=5)
- Oedolion ag anabledd (n=8)
- Oedolion ag anabledd dysgu x3 (n=7; n=5; n=8)
- Oedolion awtistig (n=1; ystyried cyfweiliad yn hytrach na grŵp ffocws)
- Oedolion â salwch meddwl (n=4)
- Oedolion â nam gwybyddol/dementia (n=7)
- Oedolion â cholled golwg (n=6)
- Oedolion o'r gymuned F/fyddar (n=4)
- Oedolion â phrofiad o gamddefnyddio sylweddau (n=2)

Roedd rhai grwpiau ffocws yn fach iawn, ac felly ni ellir dweud bod y safbwyntiau a gasglwyd yn gynrychioliadol; fodd bynnag, maent yn rhoi mewnwelediad manwl i brofiadau bywyd pobl.

6.3 Pobl o wahanol ryweddau:

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol y PNA ar bobl o wahanol rywedd. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o effaith gadarnhaol gan fod rhywedd yn cael ei ystyried mewn rhai penodau, ac mae'r adroddiad PNA yn mynegi anghenion pobl o wahanol rywedd. Gall


Gall dynion a menywod wynebu rhwystrau

<p>Ystyriwch ddyinion, menywod, pobl sy'n ailbennu rhywedd</p> <p>Sylwer: Ailbennu rhywedd yw unrhyw un sy'n bwriadu, yn dechrau, yn mynd drwy neu sydd wedi cwblhau proses i newid rhyw gyda neu heb weithdrefnau meddygol. Cyfeirir at hyn weithiau fel Traws neu Drawsryweddol</p>	<p>pobl draws fod wedi'u tangynrychioli, gyda llai na 3 o'r ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus yn nodi eu bod yn draws. Nid oedd rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn thema benodol yn y PNA, fodd bynnag, cafodd rhywedd ei ystyried yn y penodau Sefydliadau Diogel a Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV).</p> <p>Nodwyd anghydraddoldebau o ran rheoli carcharorion yn y bennod Sefydliadau Diogel (pennod 19) gan mai dim ond dynion y mae CEM Caerdydd yn eu derbyn. Nid oes unrhyw garcharorion benywaidd yn byw yng Ngharchar Caerdydd; maent yn hytrach yn cael eu carcharu yn Lloegr, gan amlaf yng Ngharchar Eastwood Park. Mae'n hysbys bod pellter cynyddol rhwng preswylfa unigolyn cyn carchar a lleoliad y carchar yn gysylltiedig â llai o ymweliadau proffesiynol, gan felly roi menywod dan anfantais (4). Cydnabyddir y bu heriau o ran rheoli TB ar gyfer unigolion o Gymru sy'n cael eu carcharu yn Lloegr o ran prydlondeb gofal, gyda rhai adroddiadau bod triniaeth yn cael ei gohirio tan y trosglwyddir y carcharor i Gymru (5). Bydd hyn yn rhoi menywod dan anfantais anghymesur.</p> <p>Mae pennod Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (pennod 17) yn canolbwyntio'n bennaf ar fenywod, fodd bynnag, gall dynion hefyd ddiodef cam-drin domestig a thrais rhywiol. Trafodir hyn yn y bennod.</p> <p>Mae enghreifftiau o anghenion a nodwyd yn y bennod VAWDASV yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau gynaeolegol a mamolaeth <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Adroddodd ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus cyffredinol eu rhyw fel a ganlyn: 59% benywaidd, 38% gwrywaidd, a 3% anneuaid / arall / dewis peidio â dweud. Mewn ymateb i'r cwestiwn, "Ydych chi'n draws", ymatebodd y rhan fwyaf "na" (487/510; 95.5%), gyda 23 o'r ymatebwyr yn nodi ei bod yn well ganddynt hunan-ddisgrifio, bod yn well ganddynt beidio â dweud, neu eu bod yn Draws (llai na thri).</p>	<p>gwahanol wrth gael mynediad at ofal cymdeithasol ac mae'n bwysig bod eu hanghenion yn cael eu diwallu pan ailddylunir gwasanaethau.</p> <p>Bydd angen i bobl sydd wedi ailbennu eu rhywedd ddefnyddio ein gwasanaethau a bydd angen i ni ddeall sut i wneud iddynt deimlo wedi'u croesawu ac wedi'u cynnwys.</p> <p>Mae pob pennod yn y PNA wedi datblygu argymhellion yn seiliedig ar yr anghenion allweddol a</p>	
--	---	--	--

	<p>Roedd yr oedolion a ymatebodd i'r arolwg Hawdd ei Ddeall i gyd yn fenywod, ac nid oeddent yn ystyried eu hunain yn draws.</p> <p>Adroddodd plant a phobl ifanc eu rhywedd fel a ganlyn: 58% benywaidd, 35% gwrywaidd. Nid oedd y rhan fwyaf (88%) yn disgrifio eu hunain fel traws, gydag eraill yn ffafrio hunan-ddisgrifio neu'n well ganddynt beidio â dweud.</p>	<p>nodwyd. Dylai cynlluniau ac asesiadau yn y dyfodol ystyried canfyddiadau'r PNA wrth eu datblygu.</p>																												
<p>6.4 Pobl sy'n briod neu sydd â phartner sifil.</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau yn y PNA ar briodas neu bartneriaeth sifil. Nid chafodd y nodwedd warchoddedig hon ei hystyried yn thema benodol yn y PNA.</p> <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Roedd ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus yn bennaf yn briod (55%), a dywedodd 19% eu bod yn seagl.</p> <table border="1" data-bbox="403 837 1637 1276"> <thead> <tr> <th></th> <th>Nifer</th> <th>%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Sengl</td> <td>96</td> <td>18.5</td> </tr> <tr> <td>Mewn Partneriaeth Sifil o'r un rhyw</td> <td>4</td> <td>0.8</td> </tr> <tr> <td>Priod</td> <td>283</td> <td>54.6</td> </tr> <tr> <td>Cyd-fyw</td> <td>40</td> <td>7.7</td> </tr> <tr> <td>Wedi gwahanu/ysgaru neu wedi gwahanu'n gyfreithiol os yn flaenorol mewn Partneriaeth Sifil o'r un rhyw</td> <td>36</td> <td>6.9</td> </tr> <tr> <td>Gweddw</td> <td>52</td> <td>10.0</td> </tr> <tr> <td>Arall</td> <td>7</td> <td>1.4</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>518</td> <td>100.0</td> </tr> </tbody> </table>		Nifer	%	Sengl	96	18.5	Mewn Partneriaeth Sifil o'r un rhyw	4	0.8	Priod	283	54.6	Cyd-fyw	40	7.7	Wedi gwahanu/ysgaru neu wedi gwahanu'n gyfreithiol os yn flaenorol mewn Partneriaeth Sifil o'r un rhyw	36	6.9	Gweddw	52	10.0	Arall	7	1.4	Cyfanswm	518	100.0	<p>Mae'n bosibl y bydd angen i bobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil gael mynediad at ein gwasanaethau a bydd yn rhaid i'r BPRh ddeall sut i wneud iddynt deimlo wedi'u croesawu ac wedi'u cynnwys. Dylai cynlluniau ac asesiadau ar gyfer y dyfodol sy'n defnyddio'r PNA ystyried canfyddiadau'r PNA wrth eu datblygu.</p>	
	Nifer	%																												
Sengl	96	18.5																												
Mewn Partneriaeth Sifil o'r un rhyw	4	0.8																												
Priod	283	54.6																												
Cyd-fyw	40	7.7																												
Wedi gwahanu/ysgaru neu wedi gwahanu'n gyfreithiol os yn flaenorol mewn Partneriaeth Sifil o'r un rhyw	36	6.9																												
Gweddw	52	10.0																												
Arall	7	1.4																												
Cyfanswm	518	100.0																												


	Dychwelwyd tri arolwg Hawdd ei Ddeall. O gofio niferoedd bach, ni ddarperir dadgyfuniad pellach.		
<p>6.5 Merched sy'n disgwyl babi, sydd ar seibiant o'r gwaith ar ôl cael babi, neu sy'n bwydo ar y fron.</p> <p>Cânt eu hamddiffyn am 26 wythnos ar ôl cael babi p'un a ydynt ar gyfnod mamolaeth ai peidio.</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau y PNA ar fenywod sy'n disgwyl babi, sy'n cael seibiant o'r gwaith ar ôl cael babi, neu sy'n bwydo ar y fron. Nid oedd y nodweddion gwarchoddedig hyn yn thema benodol yn y PNA. Cânt eu tangynrychioli yn ein gwaith ymgysylltu.</p> <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Dyweddodd lleiafrif yr ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus eu bod yn disgwyl babi (3/57 o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn); roedd tri ar seibiant o'r gwaith ar ôl cael babi neu'n bwydo ar y fron ar hyn o bryd.</p>	<p>Mae'n bosibl y bydd angen i bobl sy'n feichiog neu sydd newydd gael babi gael mynediad at ein gwasanaethau a bydd yn rhaid i'r BPRh ddeall sut i wneud iddynt deimlo wedi'u croesawu ac wedi'u cynnwys. Dylai cynlluniau ac asesiadau ar gyfer y dyfodol sy'n defnyddio'r PNA ystyried canfyddiadau'r PNA wrth eu datblygu.</p>	
<p>6.6 Pobl o hil, cenedligrwydd, lliw, diwylliant neu darddiad ethnig gwahanol gan gynnwys rhai sydd ddim yn siarad</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol y PNA ar bobl o hil, cenedligrwydd, lliw, diwylliant neu darddiad ethnig gwahanol gan gynnwys y rheini sydd ddim yn siarad Saesneg, sipsiwn/teithwyr, gweithwyr mudol. Nid oedd y nodwedd warchoddedig hon yn thema benodol yn y PNA.</p>	<p>Mae'r BPRh yn deall y gall pobl wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau</p>	

<p>Saesneg, sipsiwn/teithwyr, gweithwyr mudol</p>	<p>Yn anffodus, ni allai'r grŵp ffocws arfaethedig gyda sipsiwn a theithwyr gael ei gynnal. Dylai gwaith yn y dyfodol geisio canfod barn y cymunedau hyn. Mae pobl o ethnigrwydd gwahanol yn cael eu tangynrychioli yn y gwaith ymgysylltu ar gyfer y PNA.</p> <p>Mae'r PNA yn cynnwys pennod ar Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid (Pennod 20), sy'n manylu ar yr anghenion a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp poblogaeth hwn.</p> <p>Drwy fynegi anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gellir cynllunio'n well ar gyfer eu hanghenion am ofal a chymorth.</p> <p>Mae enghreifftiau o anghenion allweddol ceiswyr lloches a ffoaduriaid a nodwyd gan y PNA yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amrywiad mewn anghenion meddygol yn seiliedig ar gefndir y person • Iechyd meddwl a chefnogaeth ar gyfer cyflyrau hirdymor • Deall system y GIG gan gynnwys mynediad at wasanaethau <p>Roedd bylchau data a nodwyd yn cynnwys niferoedd ac anghenion mudwyr heb eu dogfennu.</p> <p>Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar y cysylltiad rhwng ethnigrwydd ac effaith COVID-19 (6).</p> <p>Nododd Canolfan Llywodraethiant Cymru yn ei hadroddiad fod pobl o grŵp Du, Asiaidd, neu Ethnig Cymysg wedi profi cyfraddau uwch yn y ddalfa, o gymharu â diffynydion Gwyn. Yn ogystal, roedd hyd y ddedfryd o garchar yn hirach ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (4).</p> <p>Nododd Cyfrifiad 2011 fod tua un rhan o chwech (15.3%) o boblogaeth Caerdydd yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn, sy'n uwch na'r gyfradd ledled Cymru (4.4%). Ym Mro Morgannwg mae 3.6% o'r boblogaeth yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn (7).</p>	<p>iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd eu hil. Mae'r BPRh wedi dyrannu cyllid i archwilio'r maes penodol hwn yng nghanam 1 ein cynllun ymgysylltu.</p> <p>Mae'r PNA yn argymhell y dylai'r holl asiantaethau sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr heb eu dogfennu wella'r broses casglu data er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn data.</p>	
--	--	--	--



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (7)

Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol gynnydd o 10.4% yn 2004 i 20.1% yn 2020 yn nifer y bobl yng Nghaerdydd sy'n Ddu, Asiaidd, neu o grŵp lleiafrifoedd ethnig. Dim ond cynnydd bach a welwyd ym Mro Morgannwg yn y bobl sy'n Ddu, yn Asiaidd, neu o grŵp lleiafrifoedd ethnig dros yr un cyfnod (8).



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (8)

Yn genedlaethol, mae plant o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'u gorgynrychioli ymhlith Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA): 8.6%, er eu bod yn cyfrif am 6.6% o'r boblogaeth (9). Roedd mwyafrif y plant a oedd yn derbyn gofal yn 2020 o ethnigrwydd gwyn (715/955 yng Nghaerdydd; 215/260 ym Mro Morgannwg). Yng Nghaerdydd, mae 55 CLA yn Ddu, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig; 65 Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; 90 o grwpiau ethnig cymysg. Ym Mro Morgannwg, roedd 40 o grwpiau ethnig eraill; ac ni chafodd niferoedd bach o ymatebion eraill eu cyhoeddi (10).

Canfyddiadau'r ymgysylltu

	<p>Gwyn oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus: 92.5%; n=482 o 521 a ymatebodd i'r cwestiwn. Roedd pedwar ar ddeg yn Asiaidd (2.7%); roedd 9 yn uniaethu'n Ethnig Cymysg/Lluosog (1.7%). Dywedodd yr oedolion a ymatebodd i'r arolwg Hawdd ei Ddeall mai Gwyn oedd eu hethnigrwydd (n=3).</p>		
<p>6.7 Pobl sydd â chrefydd neu gred neu heb unrhyw grefydd neu gred. Mae'r term 'crefydd' yn cynnwys cred grefyddol neu athronyddol</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol y PNA ar bobl â chrefydd neu gred, neu ddim crefydd neu gred. Nid oedd y nodwedd warchoddedig hon yn thema benodol yn y PNA.</p> <p>Ar draws llawer o benodau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, roedd crefydd ac eglwys yn cael eu nodi'n aml fel ased cymunedol i gefnogi llesiant.</p> <p>Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg yng Ngharchar Caerdydd: "<i>Hoffwn gael pryd o fwyd traddodiadol y sipsiwn o leiaf unwaith y mis, rydych chi'n cael Ramadan felly beth am fwyd o'm diwylliant i.</i>"</p> <p>Gall mwy o ymwybyddiaeth o rôl crefydd - neu ddiffyg crefydd - ar les gael effaith gadarnhaol. Mae'n bosibl bod safbwyntiau pobl sy'n ymarfer Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Islam, neu Sikhiaeth yn cael eu tangynrychioli. Dywed Cyfrifiad 2011 fod 57.6% o boblogaeth Cymru yn Gristnogion, gyda 32.1% o bobl heb unrhyw grefydd (data 2001: 71.9% a 18.5% yn y drefn honno) (11). Disgwylir data Cyfrifiad wedi'i ddiweddarau yn 2022.</p> <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Roedd ymatebwyr i'r arolwg cyhoeddus cyffredinol yn ystyried eu bod yn perthyn i'r grefydd ganlynol: 54% dim crefydd, 41% yn Gristnogion, 1% yn Fwdhyddion.</p> <p>Dywedodd pob un o'r oedolion a ymatebodd i'r arolwg Hawdd ei Ddeall mai eu crefydd oedd Cristnogaeth (n=3).</p>	<p>Mae'r BPRh yn deall y gall pobl wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd eu crefydd. Mae'r BPRh yn bwriadu archwilio hyn yn fanylach cyn penderfynu ar y ffordd orau o gasglu barn pobl.</p> <p>Mae'r PNA yn argymhell mewn llawer o benodau bod diwylliant o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda</p>	

		<p>mwy o lais i'r person, yn cael ei ddatblygu, neu ei barhau, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n groesawgar i bobl o bob cred a diwylliant.</p>																									
<p>6.8 Pobl sy'n cael eu denu at bobl eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> o ryw arall (heterorywiol) o'r un rhyw (lesbiaidd neu hoyw) o'r ddau ryw (deurywiol) 	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar bobl heterorywiol, lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. Nododd y PNA fod angen i rai gwasanaethau ddatblygu hygrychedd i unigolion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Cwiar, er enghraifft, yn y bennod VAWDASV (pennod 11), a Phobl Hŷn (pennod 16), lle nodwyd bwloch mewn gwybodaeth. Gall hyn gael effaith gadarnhaol oherwydd gellir mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am eu hanghenion a'u hegluro er mwyn eu hystyried yn y dyfodol.</p> <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Disgrifiodd ymatebwyr i'r arolwg cyffredinol eu cyfeiriadedd rhywiol fel a ganlyn:</p> <table border="1" data-bbox="405 1007 996 1401"> <thead> <tr> <th></th> <th>No</th> <th>%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Deurywiol</td> <td>25</td> <td>4.8</td> </tr> <tr> <td>Merch Hoyw/Lesbiad</td> <td>5</td> <td>1.0</td> </tr> <tr> <td>Dyn Hoyw</td> <td>15</td> <td>2.9</td> </tr> <tr> <td>Heterorywiol</td> <td>434</td> <td>83.9</td> </tr> <tr> <td>Arall</td> <td>5</td> <td>1.0</td> </tr> <tr> <td>Gwell gen i beidio ag ateb</td> <td>33</td> <td>6.4</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>517</td> <td>100.0</td> </tr> </tbody> </table>		No	%	Deurywiol	25	4.8	Merch Hoyw/Lesbiad	5	1.0	Dyn Hoyw	15	2.9	Heterorywiol	434	83.9	Arall	5	1.0	Gwell gen i beidio ag ateb	33	6.4	Cyfanswm	517	100.0	<p>Mae'r BPRh yn deall y gall pobl wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol; ac mae'n bwriadu ymgysylltu'n benodol â phobl LGBTQ+ yng nghanam 2.</p>	
	No	%																									
Deurywiol	25	4.8																									
Merch Hoyw/Lesbiad	5	1.0																									
Dyn Hoyw	15	2.9																									
Heterorywiol	434	83.9																									
Arall	5	1.0																									
Gwell gen i beidio ag ateb	33	6.4																									
Cyfanswm	517	100.0																									


	<p>Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd bod 2.7% o boblogaeth y DU yn nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol yn 2019 (12).</p> <p>Roedd oedolion a ymatebodd i'r arolwg Hawdd ei Ddeall i gyd yn uniaethu'n heterorywiol (n=3).</p>		
<p>6.9 Pobl sy'n cyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg o ran gohebiaeth, taflenni gwybodaeth, neu gynlluniau gwasanaeth</p> <p>Nod Llesiant – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar bobl sy'n cyfathrebu yn Gymraeg. Roedd arolygon PNA ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gan ddefnyddio dull cyfathrebu dymunol y cyfranogwyr, er enghraifft, cynhaliodd y gymuned F/fyddar eu grŵp ffocws yn Iaith Arwyddion Prydain.</p> <p>Bydd adroddiad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, y crynodeb ar-lein, a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd hwn i gyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Darperir asesiad o'r Gymraeg / Saesneg fel ail iaith ac anghenion cyfathrebu eraill ym mhob pennod o'r PNA, a nodir llawer o fylchau data ar draws y penodau. Drwy amlygu'r anghenion allweddol a bylchau yn y data, gall gwaith yn y dyfodol geisio mynd i'r afael â'r rhain fel y gellir datblygu gwasanaethau'n well i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r boblogaeth. Bydd hyn yn effaith gadarnhaol.</p> <p>Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn adrodd bod 11% o ymatebwyr Caerdydd a'r Fro wedi cael y dewis derbyn triniaeth yn Gymraeg neu Saesneg (ystod 11-24% ar draws Cymru). Ymhlith siaradwyr Cymraeg ledled Cymru, dewisodd 24% dderbyn triniaeth yn Gymraeg (113). Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn adrodd mai dim ond 2% o weithwyr gofal cartref sy'n rhugl yn y Gymraeg, 15% â pheth Cymraeg ym Mro Morgannwg, ar gyfer Caerdydd y ffigurau yw 3% a 27% (114).</p> <p>Mae Pennod 16 yn trafod colli synhwyrâu a nam ar y synhwyrâu. Mae elfen amlwg o'r bennod yn ymwneud â chyfathrebu sy'n briodol i'r unigolyn; gan gynnwys normaleiddio'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain a dolenni clyw.</p>	<p>Bydd adnoddau ymgysylltu'r BPRh ar gael yn ddwyieithog. Bydd y BPRh yn gofyn am ddewis iaith pobl wrth gofrestru ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau ymgysylltu yn gwbl gynhwysol i siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Dylai cynlluniau ac asesiadau yn y dyfodol ystyried canfyddiadau'r PNA wrth eu datblygu.</p>	

Nododd Cyfrifiad 2011 mai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith y rhan fwyaf (98.4%) o drigolion Bro Morgannwg. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (97.1%). Caerdydd sydd â'r gyfran isaf o bobl sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf, sef 91.7%

Canfyddiadau'r ymgysylltu

Roedd ymatebwyr i'r arolwg o'r cyhoedd yn gyffredinol yn siarad Saesneg gartref yn bennaf (97.1%) gyda 2.2% yn siarad Cymraeg a 1.5% yn siarad iaith arall.

Gofynnodd yr arolwg ar gyfer y cyhoedd a oedd ymatebwyr wedi derbyn gofal a chymorth yn yr iaith neu'r fformat cyfathrebu o'u dewis. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:



O'u hystyried yn ôl thema, oedolion sy'n ofalwyr di-dâl oedd fwyaf bodlon â gwasanaethau'n cael eu darparu mewn fformat o'u dewis (81.7%) o gymharu â grwpiau eraill.

	Iechyd Meddwl Oedolion		Gofalwyr di-dâl - Oedolion		Pobl Hŷn		Iechyd ac Anabledd Corfforol	
	No	%	No	%	No	%	No	%
Do, drwy'r amser / Weithiau	66	75.0	71	86.6	127	71.6	146	74.1
Naddo	12	13.6	5	6.1	28	15.9	24	12.2
Dydw i ddim yn gwybod / Ni allaf ateb ar ran y person arall	10	11.4	6	7.3	21	11.9	27	13.7
Cyfanswm	88	100.0	82	100.0	176	100.0	197	100.0

Mae tua un o bob saith (13.4%) yn siarad ail iaith gartref.

O ran a hoffai ymatebwyr weld unrhyw welliannau yn y ddarpariaeth iaith a chyfathrebu: o'r 152 o ymatebwyr a adawodd adborth i'r cwestiwn hwn, roedd tair rhan o bump (59.2%) naill ai'n hapus â'r gwasanaeth neu'n nodi nad oedd y gwasanaeth yn berthnasol iddynt hwy. Byddai 7.9% yn hoffi gweld gwell gwasanaethau dwyieithog, tra byddai 7.2% pellach yn hoffi cael mwy o iaith blaen / llai o jargon.

Roedd sylwadau testun rhydd yn yr arolwg cyhoeddus cyffredinol yn nodi'r canlynol ynglŷn â'r Gymraeg:


- *“Rwy'n cael popeth yn ddwyieithog/rwy'n hapus gyda hynny, mae pethau mwy difrifol ar fy meddwl.”*
- *“Mwy o arwyddion ac opsiynau Cymraeg wrth geisio cyngor dros y ffôn.”*
- *“Llai o orfodi'r Gymraeg.”*
- *“Canolbwytich ar 1 iaith. Mae adnoddau dan ormod o bwysau i gynnwys pob iaith”*

	<p>Roedd un ymatebydd eisiau mwy o fynediad at gyfieithwyr ar y pryd (er nad oedd yn glir pa iaith a ddymunwyd)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gyfieithwyr ar y pryd ar gyfer pobl ifanc mewn gofal (a'u teuluoedd). <p>Gwnaed nifer o sylwadau ynglŷn â defnydd iaith, a chael cydbwysedd rhwng cyfathrebu syml a chllir, heb fod yn nawddoglyd tuag at y claf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>“Hoffwn i oncolegydd fy ngŵr ddysgu sut i fod yn agored ac egluro pethau. Dydyn ni ddim yn dwp!”</i> • <i>“Mwy o gefnogaeth/dealltwriaeth o gyfathrebu di-eiriau”</i> • <i>“Dylai pawb ohonom allu siarad ein hiaith ein hunain”</i> • <i>“Cyfathrebu mwy syml, hawdd ei ddeall, heb jargon.”</i> <p>Roedd pob un o'r tri ymatebydd i'r arolwg Hawdd ei Ddeall yn siarad Saesneg yn bennaf gartref, ac yn adrodd eu bod yn derbyn gofal a chymorth yn eu dewis iaith. Roedd ymatebwyr eisiau i ddarparwyr gwasanaethau <i>“siarad yn ddigynnwr”</i>, <i>“siarad yn blaen, dim jargon”</i>,</p> <p>Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn siarad Saesneg gartref (84.6%; 22/27), gyda llai na 3 ymateb ynglŷn â siarad Saesneg gan ddefnyddio Cyfathrebu Estynedig ac Amgen (AAC); Cymraeg, Gwjwratl, a Rwmaneg.</p>		
<p>6.10 Pobl yn ôl eu grŵp cysylltiedig ag incwm: Ystyriwch bobl ar incwm isel, economaidd anweithgar, di-waith/heb waith, pobl na allant weithio oherwydd salwch</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar bobl yn ôl eu grŵp cysylltiedig ag incwm. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldebau ac amddifadedd yn cael eu trafod gyda phob grŵp poblogaeth yn y PNA, ac felly drwy fynegi materion allweddol a bylchau data, y gobaith yw y bydd y PNA yn cael effaith gadarnhaol wrth i arweinwyr gwasanaethau, comisiynwyr, ac eraill ystyried sut y gall eu gwasanaethau leihau'r anghydraddoldebau a nodwyd. Mae pobl sydd wedi'u hynysu'n ddigidol yn debygol o gael eu tangynrychioli mewn gwaith ymgysylltu, oherwydd ffocws ar ddosbarthu deunyddiau ar-lein a dulliau cyfathrebu yn ymwneud â COVID-19. Felly, mae'n bosibl nad yw eu safbwyntiau wedi'u cynnwys yn gynhwysfawr yn y PNA.</p>	<p>Rhoddwyd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar waith ym mis Mawrth 2021, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus "roi</p>	

	<p>Cynhaliwyd trafodaeth grŵp ffocws gyda phobl ddigartref. Roedd yr anghenion allweddol a nodwyd yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen am gyfeiriad er mwyn cael gwaith • Tensiwn rhwng rheolau llety (er enghraifft, gorfod gadael erbyn 9am) a gwaith shift <p>Plant a phobl ifanc</p> <p>Nododd adolygiad tystiolaeth o hawliau dynol plant yng Nghymru ganlyniadau gwahaniaethol o ran ffactorau risg a chanlyniadau iechyd, addysg, a llesiant yn dibynnu ar gefndir economaidd-gymdeithasol (13). Roedd plant 4-5 oed yn y degradd mwyaf difreintiedig 76% yn fwy tebygol o fod yn ordew na'r rheini yn y degradd lleiaf difreintiedig. Roedd pwysau geni isel ac amddifadedd addysgol hefyd yn gysylltiedig ag amddifadedd incwm (14).</p> <p>Mae adroddiad diweddaraf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn defnyddio data 2016/17, ac yn canfod bod 28% o blant 0-4 oed yn byw mewn amddifadedd incwm (ystod 17%-30%). Dyma'r gyfran uchaf yn ôl grŵp oedran. Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o blant 0-4 oed sy'n byw mewn amddifadedd incwm (6,600 o blant) ac mae hynny ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ar 29%; mae gan Fro Morgannwg bron i 2,000 o blant mewn amddifadedd incwm (23%). Gan Gaerdydd y mae'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen canol mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru, gyda chyfraddau amddifadedd incwm yn amrywio rhwng 3% yn Rhiwbeina a Phantmawr a 67% yn Nwyrain Trelai. Yn y ddau awdurdod lleol, mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 2012/13: roedd gan Gaerdydd 33% a Bro Morgannwg 27% o blant 0-4 oed yn byw mewn amddifadedd incwm (14).</p> <p>Ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 5, 6, a 7 sy'n canolbwyntio ar Blant a phobl ifanc.</p> <p>Oedolion</p> <p>Rhoddir crynodeb ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg yn y bennod ar ddemograffeg (Pennod 4). Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2019 yn awgrymu bod yna ardaloedd o anghydraddoldebau sefydledig ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro;</p>	<p>sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldeb au o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol" (17).</p> <p>Bydd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol felly'n cael ei hymgorffori yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â thrwy gynlluniau ac asesiadau gan ddefnyddio canfyddiadau'r PNA.</p>	
--	---	---	--

gydag ardaloedd yn yr ‘Cylchran Ddeheuol’ yng Nghaerdydd ac ardaloedd yn Nwyrain y Barri yn cael eu hystyried yn fwy difreintiedig yn erbyn Malc. Yng Nghaerdydd, mae 39 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) wedi’u cynnwys yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod 3 LSOA ym Mro Morgannwg yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yng Nghaerdydd, mae tua un rhan o bump o drigolion yn byw yn y 10% o LSOA mwyaf difreintiedig Cymru. Mae tua 50% o boblogaeth Caerdydd yn byw yn y 50% o LSOA lleiaf difreintiedig, ac ar gyfer Bro Morgannwg, mae 65% yn byw yn y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig (15).

**AGEHI Caerdydd a Bro Morgannwg fesul pumed Amddifadedd
(2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)**




Mae ymatebwyr i waith ymgysylltu, ac adroddiadau a dogfennau presennol wedi disgrifio'r awydd sydd gan lawer o bobl i gael cyflogaeth sicr ac o ansawdd uchel. Mae'r buddion yn cynnwys sicrwydd ariannol, yn ogystal â'r ymdeimlad o bwrpas, ac effeithiau amddiffynnol ar iechyd meddwl a llesiant a ddaw yn sgil cyflogaeth. Mae enghreifftiau o'r

canfyddiadau hyn i'w gweld ar draws y PNA, ond rhoddir sylw arbennig i'r rhain yn y penodau canlynol: ffyrdd iach o fyw a chyflyrau hirdymor (pennod 9), anabledd corfforol (pennod 10); anabledd dysgu (pennod 11), awtistiaeth (pennod 12); nam ar y synhwyrâu (pennod 16); sefydliadau diogel (pennod 19); ceiswyr lloches a ffoaduriaid (pennod 20).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar COVID-19 a chyflogaeth, dadansoddiad o nodweddion gwarchoddedig (16).

Canfyddiadau'r ymgysylltu


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg plant a phobl ifanc yn yr ysgol. Roedd lleiafrif (2.9%) yn ddi-waith a heb fod mewn hyfforddiant, addysg na chyflogaeth.



Atebodd dau ddeg chwech o ymatebwyr yr arolwg gwestiynau'n ymwneud â'r Raddfa Cyfoeth Teuluol. Mae cwestiynau'n cynnwys a oes gan yr unigolyn ei ystafell wely ei hun; nifer y cyfrifiaduron/ffonau clyfar yn y cartref; ac a oes ganddynt beiriant golchi llestri. Nododd y Raddfa fod 7/26 o ymatebwyr yn gyfoeth isel, 14 yn ganolig, a 5 yn gyfoeth uchel.

	<p>Roedd asesu amddifadedd/cyfoeth yn ffurfiol y tu hwnt i gwmpas yr arolwg cyhoeddus cyffredinol, ac felly dewiswyd cwestiynau i ddarparu mesur anffurfiol.</p> <p>Dywedodd 482 o 661 o gyfranogwyr fod ganddynt swm bach o arian i'w wario bob wythnos arnynt eu hunain; roedd 517 yn gallu cadw ar ben eu biliau ac ad-daliadau dyled rheolaidd; 461 yn gallu fforddio cadw eu tŷ mewn cyflwr gweddol; a llwyddodd 478 i gadw eu tŷ yn gynnes yn y gaeaf. Yn gyffredinol, dywedodd 367 o ymatebwyr (56%) eu bod yn gallu fforddio pob un o'r pedwar o'r rhain.</p>		
<p>6.11 Pobl yn ôl lle maent yn byw: Ystyriwch bobl sy'n byw mewn ardaloedd y gwyddom sy'n dangos dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael, pobl nad ydynt yn gallu cyrchu gwasanaethau a chyfleusterau</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar lle mae pobl yn byw. Trafodir anghydraddoldebau ac amddifadedd gyda phob grŵp poblogaeth yn y PNA ac felly drwy fynegi materion allweddol, y gobaith yw y bydd y PNA yn cael effaith gadarnhaol wrth i arweinwyr gwasanaethau, comisiynwyr, ac eraill ystyried sut y gall eu gwasanaethau leihau'r anghydraddoldebau a nodwyd. Nododd rhai pobl, gan gynnwys arweinwyr proffesiynol, fod symud i ddarpariaeth gwasanaethau ar-lein / dros y ffôn yn ddefnyddiol i bobl sy'n byw mewn lleoliadau mwy gwledig, gan ei fod yn ei gwneud yn haws cyrchu gwasanaethau (gweler, er enghraifft, pennod 8: iechyd meddwl a nam gwybyddol oedolion). Dylid nodi bod llawer o ymatebwyr wedi sylwi ar anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau ar-lein/dros y ffôn – er enghraifft, y rheini sydd wedi colli synhwyrau neu â nam ar eu synhwyrau (pennod 16).</p> <p>Canfyddiadau'r ymgysylltu</p> <p>Nododd ymatebion i'r arolwg Plant a Phobl Ifanc fod 17/23 a atebodd y cwestiwn yn byw yng Nghaerdydd, a 6 ym Mro Morgannwg.</p> <p>Daeth yr ymatebion i'r arolwg cyhoeddus cyffredinol o Gaerdydd yn bennaf: o'r data cod post a oedd ar gael, roedd 402 o Gaerdydd a 105 o Fro Morgannwg.</p>	<p>Mae'r BPRh yn bwriadu ailgynllunio gwasanaethau i ddod â nhw'n nes at adref. Byddant yn ddi-dor ac yn gallu rhannu gwybodaeth. Dylai'r datblygiadau hyn i gyd helpu pobl i lywio'r system yn haws ac arbed amser yn teithio ac ailadrodd gwybodaeth.</p>	

Lleoliad Atebwyr fesul Cod
Post – Caerdydd a'r Fro



Atebodd dau ymatebydd yr arolwg cyhoeddus Hawdd ei Ddeall ynglŷn â thai: oherwydd niferoedd bach, ni adroddir ar unrhyw ganlyniadau dadgyfunedig. Dywedodd ymatebwyr fod ganddynt swm bach o arian i'w wario arnynt eu hunain bob wythnos, eu bod yn gallu talu eu biliau a dyledion ar amser, ac yn gallu cadw eu tŷ yn gynnes.

6.12 Ystyriwch unrhyw grwpiau a ffactorau risg eraill sy'n berthnasol i'r strategaeth hon, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar grwpiau eraill.

Ceisiodd y PNA yn benodol ac yn rhagweithiol farn pobl a nododd eu bod yn un o'r themâu canlynol:

- Plant a phobl ifanc (gan gynnwys plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, a phlant sy'n derbyn gofal)
- Pobl hŷn

Yn anffodus, ni chynhaliwyd rhai grwpiau ffocws a gynlluniwyd. Nid oeddem yn gallu cael dealltwriaeth o farn Sipsiwn a

	<ul style="list-style-type: none"> • Ffyrdd iach o fyw a chyflyrau hirdymor • Anableddau corfforol • Anabledd dysgu • Awtistiaeth • Iechyd meddwl • Nam gwybyddol gan gynnwys dementia • Nam ar y synhwyr • Gofalwyr di-dâl sydd angen cefnogaeth • Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol • Sefydliadau diogel • Ceiswyr lloches a ffoaduriaid • Camddefnyddio sylweddau • Gadawyr gwasanaeth y lluoedd arfog (cyn-filwyr) • Oedolion sy'n ddigartref ar hyn o bryd / sydd â phrofiad o ddigartrefedd <p>Cydnabyddir nad yw'r canfyddiadau'n gynhwysfawr nac yn gyflawn. Yn hytrach maent yn sail i sgwrs barhaus rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a thrigolion Caerdydd a Bro Morgannwg.</p>	<p>Theithwyr, er enghraifft. Dylai gwaith pellach ystyried y bylchau hyn yn ein dealltwriaeth o anghenion gofal a chymorth cymunedau ymylol a cheisio mynd i'r afael â hwy.</p> <p>Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth ar y PNA a'r EHIA, wrth i ni geisio gwella. Anfonwch y rhain i Hsc.Integration@wales.nhs.uk</p>	
--	---	--	--

7. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd / Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar iechyd a lles ein poblogaeth ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd?

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud â'r effaith ar iechyd cyffredinol pobl unigol ac ar yr effaith ar ein poblogaeth. Mae aliniad penodol â 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i gynnwys yn yr adrannau perthnasol.

Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar y canlynol:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl ac unrhyw grwpiau penodol yr effeithir arnynt	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel bo'n briodol
<p>7.1 Pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth a gynigir: Ystyriwch fynediad i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig a/neu'r rheini sy'n profi anghydraddoldebau o ran iechyd</p> <p>Nod Llesiant - Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	<p>Cyhoeddir dwy fersiwn o'r adroddiad PNA:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. crynodeb o'r adroddiad PNA, sydd ar gael ar-lein (cynulleidfa ddisgwyliedig: y cyhoedd) 2. yr adroddiad PNA ffurfiol llawn (cynulleidfa ddisgwyliedig: gweithwyr proffesiynol) <p>Bydd yr adroddiad llawn ar gael i'w lawrlwytho o'r crynodeb ar-lein, i'r rheini a hoffai gael gwybodaeth fanylach.</p> <p>Nod y dull hwn yw cynyddu mynediad at y wybodaeth yn y PNA i bawb, gyda'r lefel briodol o fanylder.</p> <p>Mae'n bosibl na fydd y rheini nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd yn gallu cael</p>	<p>Bydd cyfathrebu ynglŷn â chyhoeddi'r PNA yn cael ei ledaenu'n eang gan gynnwys drwy sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector fel y gallant hysbysu defnyddwyr eu gwasanaethau.</p> <p>Bydd crynodeb o'r adroddiad PNA ar gael ar-lein mewn fformat cyfeillgar i ddarllenwyr lleyg, gydag opsiwn i lawrlwytho'r adroddiad llawn i bobl a hoffai gael mwy o fanylion. Bydd copïau caled o'r ddau fersiwn (i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol) ar gael ar gais.</p>	

Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar y canlynol:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl ac unrhyw grwpiau penodol yr effeithir arnynt	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel bo'n briodol
	<p>mynediad at fersiwn ar-lein yr adroddiad PNA neu'r crynodeb.</p> <p>Mae hygyrchedd i'r rheini sydd wedi colli synhwyrâu neu nam ar y synhwyrâu wedi'i ystyried wrth fformatio'r ddogfen. Penderfynwyd ar ffont, maint testun, a diwyg yn unol â chanllawiau hygyrchedd.</p>	Bydd fformatio (y fersiwn cyhoeddus a phroffesiynol) ar gael i ddarllenwyr sgrin.	
<p>7.2 Pobl yn gallu gwella/cynnal ffyrdd iach o fyw: Ystyriwch yr effaith ar ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta'n iach, bod yn gorfforol egniol, dim ysmegu/rhoi'r gorau i ysmegu, lleihau'r niwed a achosir gan alcohol a/neu gyffuriau heb bresgripsiwn ynghyd â mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi atal clefydau (e.e. imiwneiddio a brechu, atal cwympiadau).</p>	Mae'r PNA wedi nodi anghenion gofal a chymorth ac ystod a lefel y gwasanaethau gan gynnwys atal ar gyfer pob grŵp poblogaeth a enwir yng Nghod Ymarfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a grwpiau poblogaeth ychwanegol gan eu bod yn arbennig o bwysig i Gaerdydd a Bro Morgannwg.	Bydd y canfyddiadau PNA hyn yn sail ar gyfer ymchwil a chynllunio pellach i ddatblygu a gwella gwasanaethau ymhellach, a chyfrannu at allu pobl i wella neu gynnal ffyrdd iach o fyw.	

Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar y canlynol:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl ac unrhyw grwpiau penodol yr effeithir arnynt	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel bo'n briodol
<p>Ystyriwch hefyd yr effaith ar fynediad at wasanaethau cefnogol gan gynnwys gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu, gwasanaethau rheoli pwysau ac ati.</p> <p>Nod Llesiant – Cymru iachach</p>			
<p>7.3 Pobl o ran eu hincwm a statws cyflogaeth: Ystyriwch yr effaith ar argaeledd a hygyrchedd gwaith, cyflogaeth â thâl/di-dâl, lefelau cyflog, sicrwydd swydd, amodau gwaith</p> <p>Nod Llesiant – Cymru lewyrchus</p>	<p>Mae amddifadedd, anghydraddoldebau, a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi'u hystyried ar gyfer pob grŵp poblogaeth yn y PNA. Mae bylchau data wedi'u nodi.</p> <p>Nododd ymatebwyr mewn gwaith ymgysylltu eu dymuniad i ddod o hyd i gyflogaeth sicr ac o ansawdd uchel, a gwneir argymhellion ar gyfer recriwtio mwy cynhwysol.</p>	<p>Mae argymhellion ym mhob pennod yn cynnwys mynd i'r afael â bylchau data, a chefnogi recriwtio cynhwysol ac addasiadau rhesymol i hybu cyflogaeth.</p> <p>Rhoddwyd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar waith ym mis Mawrth 2021, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus "roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol" (17). Bydd y Ddyletswydd Economaidd-</p>	

Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar y canlynol:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl ac unrhyw grwpiau penodol yr effeithir arnynt	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel bo'n briodol
		gymdeithasol felly'n cael ei hymgorffori yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â thrwy gynlluniau ac asesiadau gan ddefnyddio canfyddiadau'r PNA.	
<p>7.4 Pobl o ran eu defnydd o'r amgylchedd ffisegol: Ystyriwch yr effaith ar argaeledd a hygyrchedd trafnidiaeth, bwyd iach, gweithgareddau hamdden, mannau gwyrdd; o ddyluniad yr amgylchedd adeiledig ar iechyd corfforol a meddyliol cleifion, staff ac ymwelwyr; ar ansawdd aer, amlygiad i lygryddion; diogelwch cymdogaethau, amlygiad i droseddu; diogelwch ffyrdd ac atal anafiadau/damweiniau; ansawdd a diogelwch mannau chwarae a mannau agored</p> <p>Nod Llesiant – Cymru gydnerth</p>	<p>Nodwyd mynediad at wasanaethau gan y PNA fel angen allweddol gan lawer o'r grwpiau poblogaeth. Mae'r PNA yn argymhell gwell mynediad at wasanaethau, a fydd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu pob grŵp. Rhoddir peth o'r manylion hyn ym mhob pennod.</p>	<p>Bydd y PNA yn un ffynhonnell wybodaeth a fydd yn cyfrannu at gynlluniau'r dyfodol, er enghraifft, Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro, neu benderfyniadau comisiynu lleol. Yn y modd hwn, gellir adeiladu ar wybodaeth berthnasol o'r PNA. Mae rhai argymhellion yn gymharol benodol o ran sut y gellir defnyddio gwybodaeth o'r PNA; fodd bynnag, nid yw'r argymhellion yn hollgynhwysfawr.</p>	

Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar y canlynol:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl ac unrhyw grwpiau penodol yr effeithir arnynt	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel bo'n briodol
<p>7.5 Pobl o ran dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar eu hiechyd: Ystyriwch yr effaith ar drefniadaeth a rolau teulu; cymorth cymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol; cymdogaeth ac ymdeimlad o berthyn; ynysigrwydd cymdeithasol; pwysau cymheiriaid; hunaniaeth gymunedol; ethos diwylliannol ac ysbrydol</p> <p>Nod Llesiant – Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<p>Ar gyfer pob grŵp poblogaeth, mae'r PNA wedi nodi asedau ar lefel unigol, cymunedol a phoblogaeth sy'n rhoi budd cadarnhaol i lesiant pobl.</p>	<p>Gall cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro a phenderfyniadau comisiynu, adeiladu ar y wybodaeth sydd yn y PNA. Er enghraifft, drwy hyrwyddo asedau, lleihau rhwystrau a mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau a nodwyd yn y PNA er mwyn gweithio tuag at Gymru o gymunedau cydlynus</p>	
<p>7.6 Pobl o ran ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd: Ystyriwch effaith polisiâu'r llywodraeth; cynnyrch mewnwladol crynswth;</p>	<p>Mae'r PNA wedi nodi ffactorau trosfwaol allweddol fel "<i>her driphlyg</i>" Brexit, newid yn yr hinsawdd a COVID-19.</p> <p>Mae pob pennod yn y PNA yn cynnwys adran ar ystyriaethau cenedlaethol trosfwaol (er</p>	<p>Mae'r PNA yn argymhell y dylai llunwyr polisi ddefnyddio lens yr Her Driphlyg i lywio polisiâu a strategaethau ynglŷn â materion yr effeithir arnynt gan Brexit, COVID-19 a newid yn yr hinsawdd,</p>	

Sut bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth yn effeithio ar y canlynol:-	Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl ac unrhyw grwpiau penodol yr effeithir arnynt	Argymhellion ar gyfer gwella / lliniaru	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel bo'n briodol
<p>datblygiad economaidd; amrywiaeth biolegol; hinsawdd</p> <p>Nod Llesiant – Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<p>enghraifft, deddfwriaeth neu ganllawiau newydd). Fodd bynnag, nid yw'r cyd-destun rhyngwladol wedi'i gynnwys fel mater o drefn yn y PNA.</p>	<p>megis systemau bwyd a diet (18).</p> <p>Dylai cynlluniau a phenderfyniadau strategol yn y dyfodol roi'r wybodaeth yn y PNA hwn mewn cyd-destun ac alinio canfyddiadau â ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd trosfwaol.</p>	

Atebwch gwestiwn 8.1 ar ôl cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Chwblhau'r Cynllun Gweithredu

<p>8.1 Rhowch grynodeb o effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl y strategaeth, polisi, cynllun neu wasanaeth</p>	<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y PNA ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig neu iechyd. Fodd bynnag, roedd pobl â rhai nodweddion wedi'u tangynrychioli mewn gwaith ymgysylltu yn yr iteriad hwn o'r PNA, ac felly mae'n bosibl nad oedd eu barn wedi'i chasglu. Dylid cadw'r bylchau hyn yng nghyflawnder y gwaith ymgysylltu mewn cof pan fydd canfyddiadau'r PNA yn cael eu defnyddio mewn cynlluniau a phenderfyniadau lleol. Bydd gwaith ymgysylltu a wneir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol yn adeiladu ar y dechreuadau hyn ac yn ystyried yn rhagweithiol y ffordd fwyaf priodol i glywed lleisiau nas clywir yn aml.</p> <p>Mae'r PNA wedi nodi nifer o ganfyddiadau a bylchau data newydd o gymharu â'r cyhoeddiad blaenorol. Nawr gellir ymchwilio ymhellach i'r canfyddiadau hyn a mynd i'r afael â bylchau data er mwyn cynllunio'r gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg nawr, ac yn y dyfodol.</p> <p>Bydd fersiynau o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn y dyfodol yn defnyddio dull hybrid, er mwyn i'r wybodaeth sydd ynddo fod yn fwy cyfredol. Bydd hyn yn cynnwys diweddariad treigl o ddata meintiol, ac adnewyddiad cyfnodol o ddata ansoddol o waith ymgysylltu. Felly, dylid ystyried yr adroddiad PNA hwn a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (EHIA) fel iteriad cyntaf; dechrau sgwrs barhaus rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a thrigolion Caerdydd a Bro Morgannwg.</p> <p>Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth ar y PNA a'r EHIA, wrth i ni geisio dysgu, gwella a datblygu. Anfonwch y rhain i Hsc.Integration@wales.nhs.uk</p>
--	---

Cynllun Gweithredu ar gyfer Lliniaru / Gwella a Gweithredu

	Gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol
8.2 Beth yw'r camau gweithredu allweddol a nodwyd o ganlyniad i gwblhau'r EHIA?	Mae ymrwymiad a brwdfrydedd gwirioneddol yn y BPRh i sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu hadlewyrchu ym mhopeth a wnawn. Mae meysydd o dangynrychiolaeth o ran gwaith ymgysylltu wedi'u nodi. Bydd gwaith ymgysylltu yn y dyfodol yn ystyried yn rhagweithiol y ffordd orau o glywed lleisiau nas clywir yn aml fel y gellir deall a diwallu eu hanghenion.	Uwch Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro	I ddechrau erbyn mis Mawrth 2022	
8.3 A oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu Asesiad o'r Effaith ar lechyd mwy cynhwysfawr? Mae hyn yn golygu meddwl am berthnasedd a chymesuredd i'r Ddeddf Cydraddoldeb a gofyn: a yw'r effaith yn ddigon sylweddol fel bod angen ymgynghoriad mwy ffurfiol a llawn?	Na, fodd bynnag, bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lechyd ar gyfer cynlluniau, strategaethau a phenderfyniadau eraill a ddatblygir o wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y PNA.	Arweinwyr asesiadau a chynlluniau unigol	Yn unol ag amserlen yr asesiadau a chynlluniau unigol	

<p>8.4 Beth yw'r camau nesaf?</p> <p>Rhai awgrymiadau:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penderfynwch a yw'r strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu gynnig gwasanaeth yn: <ul style="list-style-type: none"> ○ parhau heb newid gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ○ addasu i roi cyfrif am yr effeithiau negyddol ○ parhau er gwaethaf y posibilrwydd o effaith andwyol neu gyfleoedd a gollwyd i hybu cydraddoldeb (nodwch y cyfiawnhad dros wneud hynny) ○ stopio. • Mynnwch gael cymeradwyaeth i'ch strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu gynnig gwasanaeth • Cyhoeddwch eich adroddiad ar yr asesiad effaith hwn • Cynhaliwch waith monitro ac adolygu 	<p>Defnyddio canlyniadau'r PNA fel sail i ymgysylltu pellach pan fyddwn yn datblygu cynlluniau ac yn gwneud penderfyniadau.</p> <p>Cefnogi strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu trosfwaol y BPRh, sy'n cynnwys y canlyniadau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Panel dinasyddion a all helpu i gynrychioli ac adlewyrchu lleisiau amrywiol pobl hŷn 2. Sicrhau bod oedolion ag anableddau yn cyd-gynhyrchu ac yn llywio ein gwaith yn y maes hwn (bydd hyn yn aml yn defnyddio fforymau presennol) 3. Adnoddau ac ymgysylltiadau sy'n rhoi llais i blant a phobl ifanc a ffordd o ddylanwadu'n uniongyrchol ar y polisiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. 	<p>Uwch Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro</p>	<p>I ddechrau erbyn mis Mawrth 2022</p>	
--	--	---	---	--

Cyfeiriadau

1. **Llywodraeth Cymru.** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol). [Ar-lein] 2015. [Dyfynnwyd: 10 30, 2021.] <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/part-2-code-of-practice-general-functions.pdf>.
2. **Llywodraeth Cymru.** Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth - Cyngor Atodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. [Ar-lein] 03 2021. [Dyfynnwyd: 10 14, 2021.] <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/population-needs-assessments.pdf>.
3. **RNIB.** Offeryn Data Nam ar y Golwg Fersiwn 4.3.1. [Ar-lein] 05 2021. [Dyfynnwyd: 10 15, 2021.]
4. **Canolfan Llywodraethiant Cymru.** *Canolfan Llywodraethiant Cymru. Carchar yng Nghymru: Ffeil Ffeithiau.* Caerdydd: Prifysgol Caerdydd, 2018.
5. **Iechyd Cyhoeddus Cymru.** *Ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol mewn sefydliadau carchar.* Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019.
6. **Llywodraeth Cymru.** Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. [Ar-lein] 06 22, 2020. [Dyfynnwyd: 11 08, 2021.] <https://gov.wales/coronavirus-covid-19-and-black-asian-and-minority-ethnic-population-wales>.
7. **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.** 2011 Cyfrifiad 2011: Ystadegau Allweddol ac Ystadegau Cyflym ar gyfer Adrannau Etholiadol ac Ardaloedd Cynnyrch yng Nghymru. [Ar-lein] [Dyfynnwyd: 11 09, 2021.] https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/2011censuskeysstatisticsandquickstatisticsforelectoraldivisionsandoutputareasinwales/r22walesenglishrtableqs204ewladv1_tcm77-296996.xls.
8. **Stats Cymru.** Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig. [Ar-lein] 04 14, 2021. <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup>.
9. **Llywodraeth Cymru.** Papur gwyn - Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. [Ar-lein] 01 12, 2021. [Dyfynnwyd: 10 07, 2021.] <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-01/consutation-document.pdf>.
10. **Stats Cymru.** Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol ac ethnigrwydd. [Ar-lein] 02 24, 2021. [Dyfynnwyd: 09 14, 2021.] <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-ethnicity>.
11. **Llywodraeth Cymru.** Ffocws ystadegol ar grefydd yng Nghymru, Cyfrifiad 2011: crynodeb gweithredol. [Ar-lein] c.2012. [Dyfynnwyd: 11 09, 2021.] <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/151027-statistical-focus-religion-2011-census-executive-summary-en.pdf#:~:text=%EF%82%B7%20Christianity%20is%20still%20the%20largest%20religion%20in,England%2C%20although%20not%20as%20p>.
12. **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol** Cyfeiriadedd rhywiol, DU: 2019. [Ar-lein] 05 14, 2021. [Dyfynnwyd: 11 08, 2021.] <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2019>.

13. **Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru.** *Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad Tystiolaeth.*
14. **Llywodraeth Cymru.** Welsh Index of Multiple Deprivation 2019: deprivation analysis relating to young children. [Ar-lein] 08 26, 2021. [Dyfynnwyd: 10 29, 2021.] <https://gov.wales/welsh-index-multiple-deprivation-2019-deprivation-analysis-relating-young-children-html>.
15. **Llywodraeth Cymru.** Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 adroddiad canlyniadau. [Ar-lein] 2019. [Dyfynnwyd: 11 22, 2021.] <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report.pdf>.
16. **Llywodraeth Cymru.** Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchoddedig. [Ar-lein] 06 19, 2020. [Dyfynnwyd: 11 08, 2021.] <https://gov.wales/coronavirus-and-employment-analysis-protected-characteristics-html>.
17. **Llywodraeth Cymru.** Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2010 Canllawiau Statudol. [Ar-lein] 2021. [Dyfynnwyd: 10 25, 2021.] <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/a-more-equal-wales.pdf>.
18. **Iechyd Cyhoeddus Cymru.** Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd i iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru. [Ar-lein] 2021.

